Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

**Ymateb gan Arolygiaeth Gofal Cymru**
**(Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru gynt)**

**Ymchwiliad i Iechyd Emosiynol a Meddwl Plant a Phobl Ifanc**

Diolch am eich gwahoddiad i Arolygiaeth Gofal Cymru gyfrannu at yr ymchwiliad hwn.

Rydym yn nodi'r cylch gorchwyl a'r llinellau ymholi sy'n canolbwyntio ar y rôl a berfformir gan y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).

Nid yw Arolygiaeth Gofal Cymru wedi ymgymryd ag unrhyw werthusiad uniongyrchol o CAMHS ers 2009 pan gafwyd gwerthusiad ar y cyd rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Nodwn fod Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru eisoes wedi darparu tystiolaeth o adolygiad 2009 ar gyfer eich ymchwiliad.

Yn fwy diweddar, cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Cymru adroddiad ar arolygiad cenedlaethol o blant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n eu gwneud yn agored i niwed neu a allai beri risg (cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Ionawr 2015).

Gallwch weld yr adroddiad llawn, a'r adroddiad ar gyfer y 22 awdurdod lleol yn:
http://careinspectorate.wales/our-reports/national-thematic-report/2014/safeguarding-and-care-planning-of-looked-after-children-and-care-leavers/?skip=1&lang=cy

Dyma oedd casgliadau'r adroddiad mewn perthynas ag iechyd emosiynol ac iechyd meddwl:

- Er gwaethaf gwaith ymroddedig iawn gan unigolion yn y sector iechyd, nid oedd y gwasanaethau iechyd a oedd yn eu cyflogi yn rhoi blaenoriaeth ddigonol i anghenion emosiynol ac iechyd meddwl plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal. Yn sgil hynny, cafodd y cyfrifoldeb ei ysgwyddo gan wasanaethau cymdeithasol plant awdurdodau lleol.

- Cydnabuwyd bod diffyg cysylltiad hirdymor rhwng y trothwy mynediad a ddefnyddir gan CAMHS ac anghenion gwydnwch emosiynol plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal.

- Mae angen mynd i'r afael ar frys â'r hawl sydd gan blant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal i gael amrywiaeth briodol o wasanaethau i ddiwallu eu hanghenion iechyd seicolegol ac emosiynol, pan fo angen y ddarpariaeth honno arnynt ac am gyhyd ag y bydd ei hangen, gan gynnwys y cyfnod pan maent yn tyfu'n oedolion, a hynny ar lefel Cymru gyfan.

Yn amlwg, mae plant sy'n derbyn gofal yn wynebu risg uwch o ddioddef problemau iechyd meddwl tymor hwy, y bydd sawl un ohonynt wedi profi camdriniaeth emosiynol a chamdriniaeth arall neu broblemau ymlyniad cyn derbyn gofal. Dylai buddsoddi mewn triniaeth a chefnogaeth therapiwtig briodol o safon wrth i'r plant dderbyn gofal fod yn fesur ataliol sy'n gallu lleihau dibyniaeth ar wasanaethau iechyd meddwl yn hwyrach mewn bywyd.

Yn ôl yr adroddiad:

*"Yn y rhan fwyaf o'r achosion a adolygwyd, y bwlch mwyaf mewn gwasanaethau a nodwyd gan arolygwyr ac a amlygwyd gan staff, gan gynnwys staff iechyd arbenigol, oedd argaeledd cyfyngedig adnoddau i ddiwallu anghenion iechyd meddwl emosiynol a lles plant ar ffiniau gofal, plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal. Er i'r diffygion yn y gwasanaethau hyn gael eu hamlygu dros nifer o flynyddoedd a'u nodi fel ffactor sy'n difetha cyfleoedd bywyd pobl ifanc sy'n agored i niwed, nid yw'r pryderon hyn wedi'u datrys o hyd i raddau helaeth."*

Roedd y dystiolaeth yn yr adroddiad yn cynnwys y sylwadau canlynol gan weithwyr cymdeithasol:

*"Mae gan lawer o'r unigolion sy'n gadael ein lleoliadau gofal broblemau emosiynol dwys a fyddai'n cael eu disgrifio fel problemau iechyd meddwl mewn oedolion. Mae angen iddyn nhw gael help arbenigol gan weithwyr medrus - maen nhw wedi cael profiadau gwael iawn sy'n aros gyda nhw am flynyddoedd. "*

*" Dyw CAMHS ddim yn gweithio gyda phlant agored i niwed sy'n derbyn gofal. Mae'n rhaid i chi weithio'n galed i gael gwasanaeth therapiwtig i berson ifanc. Os oes gan berson ifanc salwch meddwl, mae gwasanaeth CAMHS yn anhyblyg – mae'n rhaid trefnu apwyntiadau yn ystod amser ysgol ac mae'n rhaid i'r person ifanc deithio oriau i gyrraedd yr apwyntiad."*

*" Gwrthodais adael lleoliad y person ifanc nes bod rhywun o CAMHS yn cytuno o'r diwedd i ddod allan i'w gweld...hyd yn oed wedyn roedd fel petai nhw'n gwneud ffafr â mi...ddyle fe ddim fod mor anodd i bobl ifanc gael gwasanaeth."*

Nododd yr adroddiad fod y diffyg cysylltiad rhwng y trothwy mynediad a ddefnyddir gan CAMHS ac anghenion gwydnwch emosiynol plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal yn broblem o hyd. Nododd yr arolygwyr nifer o achosion lle'r oedd oedi wrth gael gafael ar wasanaethau i ddiwallu anghenion emosiynol y person ifanc wedi cyfrannu'n uniongyrchol at ansefydlogrwydd y lleoliad ac ymddygiad gwaeth gan yr unigolyn a allai beri risg.

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

Cafwyd rhai enghreifftiau o ymarfer cadarnhaol y tynnwyd sylw atynt yn yr adroddiad:

- Mae prosiect Gwasanaeth Ymyrraeth Amlddisgyblaeth Torfaen (MIST) sy'n cael ei redeg gan  yr elusen Gweithredu dros Blant yn darparu gwasanaeth therapiwtig hirdymor i blant sydd wedi cael profiadau trawmatig, a ariennir ar y cyd gan y gwasanaethau iechyd, addysg a chymdeithasol. Mae MIST yn darparu gwasanaethau CAMHS a ariennir ar y cyd i blant wyth oed a throsodd. Mae'n wasanaeth poblogaidd a rhoddir diweddariadau wythnosol i weithwyr cymdeithasol ar y gwaith sy'n cael ei wneud. Mae prosiect MIST hefyd yn helpu staff a gofalwyr maeth drwy ddarparu hyfforddiant a gwasanaeth ar alw 24 awr. *" Dwi wedi newid llawer, roedden nhw'n wych, gwnaethon nhw fy helpu drwy adegau anodd iawn."* (Unigolyn sydd wedi gadael gofal).

- Roedd nifer o wasanaethau cymdeithasol plant (Casnewydd, Gwynedd, Sir Gaerfyrddin) wedi bod wrthi'n ceisio gwneud iawn am y diffyg gwasanaethau therapiwtig drwy sefydlu ac ariannu darpariaeth therapiwtig fewnol a oedd yn cynnwys seicolegwyr a therapi chwarae.

- Gwnaeth Sir y Fflint ddatblygu gwasanaethau cymorth i helpu pobl ifanc a oedd wedi profi colled ac ansicrwydd.

- Yn Sir Benfro, datblygodd y tîm CAMHS DVD hyfforddi ar gyfer ysgolion er mwyn helpu plant a phobl ifanc â phroblemau emosiynol. Mae'r tîm hefyd wedi bod yn dosbarthu'r DVD hwn i weithwyr cymdeithasol.

Mae problemau ffiniau rhwng gwasanaethau CAMHS ar gyfer plant sy'n derbyn gofal sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r ardal yn broblem o hyd ac mae wedi bod yn destun rhwystredigaeth ers sawl blwyddyn. Golyga hyn yn aml fod plant sy'n cael eu lleoli y tu allan i ardaloedd yn aml yn cael anhawster cael gafael ar wasanaethau iechyd meddwl priodol. Roedd rhai hefyd yn teimlo bod CAMHS yn dueddol o weithio ar yr ymylon yn hytrach na gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill.

Yn amlwg, mae arolygwyr yn fwy tebygol o glywed am bryderon yn hytrach na gwasanaethau sy'n perfformio'n dda. Fodd bynnag, ers 2014 pan gynhaliwyd yr arolygiadau, nid ymddengys fod llawer wedi newid. Ar hyn o bryd, mae ein harolygwyr awdurdod lleol yn adrodd bod sawl Awdurdod Lleol yn defnyddio'u cyllidebau eu hunain i lenwi bylchau a ddylai fod yn rhan o gylch gwaith CAMHS mewn gwirionedd. Dywedodd arolygwyr hefyd fod rhai Awdurdodau Lleol yn trefnu eu gwasanaethau seicoleg eu hunain ar gyfer eu plant sy'n derbyn gofal.